



Sport RCT

**Taryn, Ellie, Crystyn,
Emily, Brooke, Jocy +
Alex**

**Ysgol Gymunedol
Aberdâr**

Mae'r Llysgenhadon Ifanc yn Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi bod yn gweithio'n galed i hyrwyddo chwaraeon, lles ac arweinyddiaeth drwy'r ysgol. Hyd yn hyn, maen nhw wedi gwirfoddoli tua 10 awr yr un, gan gefnogi twrnameintiau, clybiau amser cinio, a helpu i redeg gweithgareddau ar gyfer disgyblion iau.

Mae eu hymdrechion wedi cael effaith wirioneddol, gan annog mwy o ddisgyblion i fod yn egnïol a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Y tymor nesaf maen nhw'n bwriadu cynnal sesiynau chwaraeon, helpu i drefnu diwrnod mabolgampau a lansio eu prosiect newydd, a ariennir gan ein panel 'Dragon's Den'. Maen nhw wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ac ysbrydoli eraill i fwynhau chwaraeon a datblygu eu hyder.

"Mae bod yn Llysgennad Ifanc wedi bod yn brofiad gwych. Mae wedi fy helpu i fagu hyder ac wedi rhoi'r cyfle i mi weithio gyda disgyblion iau a'u helpu i gymryd rhan mewn chwaraeon. Rydw i wedi dysgu sut i fod yn arweinydd, ac mae'n deimlad anhygoel gwneud gwahaniaeth yn ein cymuned ysgol." – Ellie

LLYSGENNAD IFANC Y MIS - EBRILL 2025

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

sportwales
chwaraeoncymru



YOUTH
SPORT
TRUST

